

# Dim byd amdanaf fi, hebof fi

# Nothing about me, without me

Action for Children

Gweithredu dros Blant

**Yn y rhifyn hwn: In this issue:**

## Felly, beth yw cyfranogiad ieuenctid?

## So, what is youth participation?

+

**Pam mae'n bwysig i ni**
**Why it's important to us**

**Sut mae cymryd rhan?**
**How you can get involved?**

Rhifyn 1, Medi 2022,
Cylchgrawn Llais Pobl Ifanc

Issue 1, September 2022
Youth Voice Magazine

**Strategaeth Cyfranogiad ac Ymgysylltiad Plant a Phobl Ifanc (2022-2025)**
**Children and Young People's Participation and Engagement Strategy (2022-2025)**

# Cynnwys





**02** Dechrau newydd

**03** Felly, beth yw cyfranogi?

**05** Cwis cyfranogi

**10** Yn eich geiriau eich hun

**11** Beth sy'n digwydd?

**14** Ystyr geiriau allweddol




# Dechrau Newydd

**Croeso i rifyn arbennig o Dim byd amdanaf fi, hebof fi – y cylchgrawn sy'n ymwneud â rhannu eich llais, eich barn a chymryd rhan.**

Yn y rhifyn hwn, rydyn ni'n sôn am gyfranogi. Beth ydy hyn? Pam ei fod yn bwysig? Pa fath o gyfranogi sy'n iawn i chi? Mae hefyd yn ymwneud â ni fel staff yn dysgu gennych chi ac yn sicrhau bod eich lleisiau'n cael eu clywed bob amser.

Y cylchgrawn hwn yw ein strategaeth ar gyfer plant, pobl ifanc ac oedolion hyd at 25 oed. Mae'n bennaf ar gyfer y rheini ohonoch sy'n defnyddio ein gwasanaethau, sy'n cymryd rhan yn ein gweithgareddau neu sy'n teimlo'n angerddol am y materion sy'n bwysig i ni.

Beth yw eich barn chi am y cylchgrawn hwn? A yw'n rhywbeth sy'n gweithio'n dda yn eich barn chi? Rhywbeth a allai fod yn well? Neu efallai ei fod yn rhywbeth cwbl annisgwyl. Beth bynnag yw eich barn, cysylltwch â ni. Byddem wrth ein bodd yn clywed gennych chi.

**Nawr, darllenwch fwy i weld sut gallwch chi gymryd rhan!**

> *"Mae angen i mi fod yn fwy na lle wrth y bwrdd. Peidiwch â'm gwahodd dim ond am ei fod yn teimlo fel y peth iawn i'w wneud."*



**Hoffech chi fod yn olygydd gwadd?**

Gallech chi fod yn olygydd nesaf Dim byd amdanaf fi, hebof fi. Ysgrifennu eich erthyglau eich hun, dysgu sut i gyfweld rhywun, penderfynu beth i'w roi ar y clawr. Dyma rai o'r pethau y bydd ein golygydd gwadd yn ymwneud â nhw. Swnio'n hwyl? Anfonwch e-bost atom yn youthvoice@actionforchildren.org.uk

# Felly, beth yw cyfranogi?



Cawsom gyfle i holi **Frankiee**, Arweinydd Cyfranogi yn Gweithredu dros Blant, ynghylch beth yn union yw cyfranogi..



**C: Hei Frankiee.**
**Beth am i ni ofyn yn blwmp ac yn blaen. Beth yw cyfranogi?**

A: I ni, mae cyfranogi yn golygu bod plant a phobl ifanc, fel chi, yn cael pob cyfle i gymryd rhan, i gael eu clywed ac i weld newid go iawn o ganlyniad i'r hyn rydych chi wedi'i ddweud wrthyn ni. Mae cyfranogi yn golygu bod yn rhan o'r penderfyniadau sy'n effeithio arnoch chi.

**C: Iawn. Ond sut mae cyfranogi yn mynd i fy helpu i?**

A: Byddwch yn cael mwy o gyfleoedd i gael dweud eich dweud am y pethau sy'n bwysig i chi. Teimlo bod gennych fwy o reolaeth dros y penderfyniadau sy'n effeithio ar eich bywyd. Datblygu sgiliau o ran gwneud penderfyniadau, dylanwadu, cyfathrebu, hyder a gwytnwch. Bydd yn eich helpu i gael gwell dealltwriaeth o'ch anghenion a'ch hawliau eich hun – ac anghenion a hawliau pobl eraill. Byddwch yn cwrdd â phobl newydd, yn gwneud ffrindiau newydd ac yn cael profiadau newydd; gan gael profiadau gwych i'w cynnwys ar eich CV i gefnogi eich gyrfa yn y dyfodol.

**C: Beth yw'r manteision i Gweithredu dros Blant?**

A: Byddwn yn cael deall yr hyn y mae arnoch ei eisiau, eich anghenion, eich dymuniadau a'ch teimladau yn well. Bydd ein gwasanaethau a'n rhaglenni yn diwallu anghenion go iawn, yn hytrach na dim ond y rhai sy'n bwysig yn ein barn ni. Bydd eich barn a'ch profiadau bywyd yn ein helpu i wneud penderfyniadau gwell. Bydd gweithio gyda chi yn ein helpu ni i fod yn fwy cysylltiedig â phlant a phobl ifanc, felly bydd gennym well dealltwriaeth o'r hyn yr ydych ei eisiau a'r hyn sydd ei angen arnoch. Bydd hyn hefyd yn gwneud ein hymarfer yn fwy cynhwysol. Ac yn ein helpu ni i wario'r arian sydd gennym mewn ffyrdd gwell.

**C: Pam mae angen strategaeth arnoch chi? Allwch chi ddim cynnwys pobl fel fi yn unig?**

A: Rydyn ni eisiau gwella cyfranogiad a gwella eich profiadau wrth weithio gyda ni. Er mwyn gwneud hyn, mae angen strategaeth (neu gynllun), sy'n nodi'r camau y mae angen i ni eu cymryd i godi eich lleisiau a chynyddu lefel y dylanwad sydd gennych chi dros y penderfyniadau a wnawn.

**C: Beth fyddwch chi'n ei wneud i sicrhau bod cyfranogi y profiad posibl gorau i mi?**

A: Y peth pwysicaf y gallwn ni ei wneud yw gwrando arnoch chi. Gyda chymorth gan bobl ifanc, rydyn ni wedi creu saith seren arweiniol ar gyfer cyfranogi. Mae'r sêr hyn yn safonau y byddwn yn eu dilyn i'ch helpu i gael y profiad gorau posibl gyda ni. Mae'r sêr i'w gweld ar dudalen 10.

**C: Yn olaf, sut byddwch chi'n gwybod a ydych chi'n gwneud pethau'n dda?**

A: Eich barn chi yw'r mesur pwysicaf. Boed hynny'n syth ar ôl i chi gymryd rhan mewn prosiect neu weithgaredd, neu'n ddiweddarach yn y broses, mae eich lleisiau'n bwysig a rhaid eu clywed! Rydyn ni bob amser yn awyddus i glywed eich barn, yn enwedig ar syniadau ynghylch sut gallwn wneud yn well.





> *"Ddylai oedolion ddim diystyru syniadau fel rhai diwerth, hyd yn oed os nad ydyn nhw'n berffaith. Dylid ystyried pob syniad a'i addasu i gyd-fynd â'r hyn sy'n bosibl."*



## A yw cyfranogi yn hawl? Ydy!

Mae eich hawl i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnoch chi wedi'i rhestru mewn dogfen gyfreithiol o'r enw Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, neu UNCRC yn fyr.

Un o'r pethau y mae UNCRC yn ei wneud yw ei gwneud yn glir bod hawliau dynol yn berthnasol i blant a phobl ifanc gymaint ag y maen nhw i oedolion.

Mae hyn yn golygu bod gan bob plentyn a pherson ifanc yr hawl i fynegi ei hun a bod ei farn yn cael ei hystyried ym mhopeth sy'n effeithio arno.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn: unicef.org.uk/wp-content/uploads/2019/10/UNCRC_summary-1_1.pdf

**Erthygl 12 UNCRC**

**Mae gan bob plentyn yr hawl i fynegi ei safbwyntiau, ei deimladau a'i ddymuniadau ym mhob mater sy'n effeithio arno, ac i'w safbwyntiau gael eu hystyried a'u cymryd o ddifri. Mae'r hawl hwn yn berthnasol bob amser, er enghraifft, yn ystod achosion mewnfudo, penderfyniadau ynghylch tai neu fywyd bob dydd y plentyn.**

# Pa fath o gyfranogi sy'n iawn i mi?

Mae cymaint o ffyrdd o fod yn rhan o wneud penderfyniadau yn Gweithredu dros Blant. Rhowch gynnig ar ein cwis i weld pa fath o gyfranogi allai fod yn addas i chi.




**Dechreuwch yma**

*Rwy'n hoffi bod yn rhan o benderfyniadau pan fyddan nhw'n effeithio ar fy mywyd i ac ar eraill*

Ydw / Nac ydw

*Rwy'n hoffi gwleidyddiaeth. Rwy'n frwd dros wleidyddiaeth ac yn awyddus i wneud y byd yn lle gwell.*

Ydw / Nac ydw

Mae cyfranogi yn wirfoddol. Does dim pwysau i gymryd rhan os nad ydych chi eisiau gwneud hynny. Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am gyfleoedd i ddweud eich dweud, edrychwch ar ein hadran 'sut i gymryd rhan' ar dudalen 6.

*Rwy'n hyderus wrth wneud penderfyniadau a hoffwn gynrychioli lleisiau pobl ifanc mewn cyfarfodydd a digwyddiadau pwysig.*

Ydw / Nac ydw

*Rwy'n hoffi cwrdd â phobl newydd a gweithio gyda'n gilydd fel tîm i wneud i newid ddigwydd.*

Ydw / Nac ydw

*Mae'n well gen i sgyrsiau un-i-un, e.e. siarad â'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau am faterion pwysig sy'n effeithio arna i'n bersonol*

Ydw / Nac ydw

## Cymryd rhan mewn gwleidyddiaeth

gallai fod i chi! Gallech sianelu eich egni a'ch angerdd i'n gweithgareddau ymgyrchu a gweithredu gan bobl ifanc.

## Gwneud penderfyniadau strategol

a newid – gallai fod i chi! Efallai yr hoffech ymuno â'n rhwydwaith Llysgenhadon Ifanc i ddweud eich dweud am y materion sy'n bwysig i chi. Gallwch hefyd fod yn rhan o benderfyniadau grŵp sy'n effeithio ar eich ysgol, cartrefi plant, clybiau ieuenctid ac ati.

## Penderfyniadau mewn grwpiau

gallai fod i chi! Efallai yr hoffech ymuno â'n Bwrdd Llysgenhadon Ifanc i ddweud eich dweud am y materion sy'n bwysig i chi. Gallwch hefyd fod yn rhan o benderfyniadau grŵp sy'n effeithio ar eich ysgol, cartrefi plant, clybiau ieuenctid ac ati.

## Cyfranogiad unigol

gallai fod i chi! Gallech siarad â'n staff am faterion sy'n effeithio ar eich bywyd fel unigolyn, fel eich gofal, addysg, iechyd a chyflogaeth.

**Oes gennych chi ddiddordeb yn y rhain i gyd?**

**Ymunwch â ni!**





## Mae cyfranogi o fudd i bawb

Nid yn unig y mae cyfranogi yn hawl dynol sylfaenol i chi, ond mae hefyd o fudd i bob un ohonom.

Gallwn ddysgu cymaint gennych chi, a gall eich cyfraniad ein helpu i ganfod cyfleoedd newydd a llunio ein ffordd o feddwl am flynyddoedd i ddod.

> *"Rwy'n hoffi gallu dewis beth ddylen ni ei wneud a chael cyfleoedd i fynegi fy marn i arweinwyr eraill a phlant"*



# Sut mae cymryd rhan

Rydyn ni eisiau i chi gymryd rhan. Ond rydyn ni'n gwybod ei bod hi weithiau'n anodd gwybod lle i ddechrau. Os oes gennych chi ddiddordeb a'ch bod eisiau gwybod mwy, anfonwch e-bost atom yn: **youthvoice@actionforchildren.org.uk.**

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am yr hyn rydyn ni'n ei wneud ar ein gwefan a'n sianeli cyfryngau cymdeithasol.

/actionforchildren @actnforchildren @actionforchildrenuk

# Deall Model Lundy



Gan **Sarah Reynolds**
Swyddog Cyfranogi ac Ymgysylltu,
Gweithredu dros Blant

**Yn y byd cyfranogi, mae llawer o 'fodelau' gwahanol sy'n helpu mudiadau i ddeall a gwireddu hawl plant i gyfranogi yn well**

Mae Gweithredu dros Blant wedi dewis y Model Lundy, a ddatblygwyd gan yr Athro Laura Lundy. Mae pedwar maes pwysig i'r model hwn a fydd yn ein helpu i ddeall y ffordd orau o weithio gyda phlant a phobl ifanc. Mae'r rhain yn dilyn trefn gronolegol ac yn cynnwys:

**1. Lle**
Rhaid i ni sicrhau bod gennych chi fannau diogel a chynhwysol lle gallwch fynd er mwyn i chi allu mynegi eich barn.

**2. Llais**
Rhaid i ni eich cefnogi chi i sicrhau bod eich lleisiau'n cael eu clywed a'ch bod yn mynegi eich hun yn y ffordd sydd orau i chi.

**3. Cynulleidfa**
Rhaid i ni sicrhau y bydd y bobl iawn yn gwrando arnoch.

**4. Dylanwad**
Rhaid i ni sicrhau bod eich barn yn cael ei chymryd o ddifri a bod camau'n cael eu cymryd, lle bo hynny'n briodol. Rhaid i ni bob amser esbonio i chi os gwneir penderfyniadau sy'n wahanol i'r hyn roeddech chi'n ei ddymuno

Mae'r model yn cynnwys rhestr wirio o gwestiynau. Byddwn yn defnyddio hyn i sicrhau bod gennych chi'r lle i fynegi eich barn, bod eich llais yn cael ei alluogi, bod y bobl iawn yn gwrando arnoch chi, a bydd eich safbwyntiau'n dylanwadu. Bydd y rhestr wirio hon yn cael ei defnyddio yn ein gwaith bob dydd, a bydd yn arbennig o ddefnyddiol pan fyddwn yn:

- Creu a diweddaru ein polisïau a'n strategaethau.
- Datblygu a gwerthuso gwasanaethau ar gyfer plant, pobl ifanc a theuluoedd.
- Cynllunio digwyddiadau a gweithgareddau.
- Ymgyrchu dros newid.
- Recriwtio aelodau newydd o staff.
- Codi Arian.
- A llawer iawn mwy!

Dyma'r rheswm pam mae Gweithredu dros Blant wedi dewis defnyddio'r model hwn. Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau neu safbwyntiau, hoffem glywed gennych.

Cysylltwch â ni yn:
**youthvoice@actionforchildren.org.uk**

*"rhaid i ni sicrhau bod y bobl iawn yn gwrando arnoch"*





# Yn eich geiriau chi



> *Dylem fod yn rhan o benderfyniadau sy'n effeithio arnom, er mwyn i ni allu teimlo bod gennym reolaeth dros ein bywydau*

## Ein Sêr Arweiniol ar gyfer Cyfranogi

**Er mwyn sicrhau eich bod yn cael y profiadau gorau posibl gyda ni, byddwn yn dilyn cyfres o chwe seren arweiniol (sy'n cael eu galw'n egwyddorion weithiau).**

**Mae'r sêr arweiniol hyn wedi cael eu creu gan bobl ifanc, a bydd POB aelod o staff Gweithredu dros Blant yn eu dilyn. Roeddech chi wedi dweud:**

### Grymuso

"Rhaid i chi ein cefnogi ni i deimlo ein bod wedi'n grymuso er mwyn i ni allu creu newid cadarnhaol a dylanwadol.

### Tegwch

"Rhaid i chi sicrhau bod gennym gyfle cyfartal i gyfranogi a theimlo ein bod yn cael ein clywed.

### Parch

"Rhaid i chi ein gweld ni fel unigolion gydag anghenion ac amgylchiadau gwahanol a sicrhau ein bod yn gallu cyfranogi mewn ffordd sy'n iawn i ni.

### Cydnabyddiaeth

"Rhaid i chi ddiolch i ni am roi ein hamser i weithio gyda chi a dathlu ein llwyddiannau.

### Hwyl

"Rhaid i chi sicrhau bod digon o gyfleoedd difyr i ni gymryd rhan ynddyn nhw.

### Diogelwch

"You must have safe spaces for us to participate both face-to-face and online.

**Os nad ydych chi'n meddwl ein bod ni wedi dilyn y sêr arweiniol hyn ar unrhyw adeg, mae'n bwysig eich bod yn ein dal ni i gyfrif. Gallwch roi adborth ar eich profiadau ar unrhyw adeg, boed hynny'n dda neu'n ddrwg. Rydyn ni eisiau clywed gennych chi!**

# Beth sy'n digwydd?

**Beth sy'n digwydd flwyddyn nesaf o ran cyfranogi?**

Dyma flas o'r mathau o weithgareddau sydd gennym mewn golwg:

**Dim byd amdanaf hebof fi**

Cynhyrchu'r cylchgrawn hwn ddwywaith y flwyddyn gyda phobl ifanc.

Datblygu ein Bwrdd Llysgenhadon Ifanc cenedlaethol.

Creu mwy o gyfleoedd i blant a phobl ifanc ddylanwadu ar benderfyniadau ein hymddiriedolwyr a staff uwch.

Creu mwy o gyfleoedd ar gyfer gweithredu o dan arweiniad pobl ifanc.

Recriwtio staff i fod yn Hyrwyddwyr Cyfranogi a fydd yn ysgogi mwy o bobl i gymryd rhan yn eu gwasanaethau.

Datblygu hyfforddiant cyfranogi i staff (wedi'i greu gan bobl ifanc, wrth gwrs!).

Darparu canllawiau i'r staff i roi awgrymiadau a syniadau iddyn nhw.

Gweithio gyda phobl ifanc i gynnal digwyddiad llais ieuenctid blynyddol i ddathlu eich llwyddiannau.

Adolygu a gwella rhan pobl ifanc.

Trafod gwaith cyfranogi mewn sesiynau goruchwylio, cyfarfodydd staff a gwerthusiadau perfformiad blynyddol.

Cynnwys plant a phobl ifanc fwy yn y broses o recriwtio a chynefino staff.

Creu calendr o ddigwyddiadau i hyrwyddo cyfleoedd i bobl ifanc.





Ymgyrchu i newid y maes gofal cymdeithasol plant yn y senedd



Codi arian i Gweithredu dros Blant




Ymgyrch Ein Gofal Ni – Diwrnod Gweithredu yn y Senedd



Cerrig Camu Cymru – cymorth i deuluoedd




Llysgenhadon Ifanc – Hyfforddiant Teithio Annibynnol



Aelodau Pwyllgor Cynghori Cenedlaethol Iwerddon - Ballyscullion Ball

# Amdanom ni



Sefydlwyd yr elusen gan y Parchedig Ddoctor Thomas Bowman Stephenson yn

**1869**

**Ein gweledigaeth yw bod pob plentyn a pherson ifanc yn cael plentyndod hapus a diogel, a'r sylfeini sydd eu hangen arnyn nhw i ffynnu.**

Rydyn ni'n elusen blant sy'n amddiffyn ac yn cefnogi plant, pobl ifanc a theuluoedd yn y DU.

Mae gennym ysgol arbennig annibynnol o'r enw Headlands yng Nghymru.

Gwytnwch

Mae ein gwerthoedd yn adlewyrchu'r ffordd rydyn ni'n awyddus i weithio. Rydyn ni'n **frwdfrydig,** yn **uchelgeisiol,** yn **gydweithredol** ac yn **gynhwysol.**

**Ac rydyn ni'n rhoi plant yn gyntaf.**

NCH → Action for Children

Cartref Cenedlaethol y Plant (NCH) oedd ein henw yn wreiddiol, cyn dod yn Gweithredu dros Blant yn 2008.

Rydyn ni'n gweithio'n agos gyda phlant a theuluoedd i ganfod problemau'n gynnar ac i gynnig help ychwanegol pan fo angen. Rydyn ni'n gwneud hyn mewn sawl ffordd – o ofal plant i raglenni iechyd meddwl a chymorth magu plant.

Rydyn ni'n rhedeg **447** o wasanaethau mewn cymunedau lleol, mewn ysgolion ac ar-lein.

Fe wnaethon ni helpu dros **2,000** o bobl ifanc i gael cyfleoedd gwaith a dysgu y llynedd.

Yn 2021/22 fe wnaethon ni gefnogi **671,275** o blant, pobl ifanc a theuluoedd.

Mae ein cefnogwyr enwog yn cynnwys **Sir Trevor McDonald**, yr **Olympian Fatima Whitbread** a **Matthew Lewis** (sy'n chwarae rhan Neville Longbottom yn ffilmiau Harry Potter).

Mae ein Bwrdd Llysgenhadon Ifanc yn gyfle gwych i wneud y canlynol - sicrhau bod eich safbwyntiau'n cael eu clywed, datblygu sgiliau newydd, cwrdd â phobl newydd a gwneud newidiadau cadarnhaol i blant a phobl ifanc yn y Deyrnas Unedig.





## Ystyr geiriau allweddol

**Cydgynhyrchu** - Cydweithio fel unigolion cyfartal i gynhyrchu cynnyrch, gwasanaeth neu weithgaredd.

**Strategaeth** - Cynllun gweithredu i gyflawni rhywbeth.

**Dylanwad** - Y pŵer i gael effaith bwysig ar rywun neu rywbeth.

**Gwytnwch** - Y gallu i godi'n ôl ar ein traed ar ôl profiad negyddol neu her anodd.

**Llywodraethu** -Y ffordd y mae grŵp o bobl, fel elusen, yn gwneud pethau. Mae strwythurau llywodraethu yn cael eu sefydlu i helpu elusennau i gydymffurfio â'r gyfraith a rheoliadau perthnasol. Rydyn ni'n defnyddio hyn i sicrhau ein bod yn gweithio tuag at gyflawni ein gweledigaeth bod pob plentyn a pherson ifanc yn cael plentyndod hapus a diogel, a'r sylfeini sydd eu hangen arnyn nhw i ffynnu.

**Monitro** - Cadw llygad ar rywbeth.

**Model (cyfranogi)** - Strwythur y gallwn ei ddilyn i'n helpu i wella cyfranogiad.

**Polisïau** - Set o reolau neu ganllawiau ar gyfer mudiad a staff eu dilyn.




# Contents


16 Fresh start

17 So, what's participation?

19 Participation quiz

23 In your words

25 What's on?

28 Key words explained




# Fresh Start

**Welcome to a special edition of Nothing About Me, Without Me – the magazine that's all about sharing your voice, your views, and getting involved.**

In this issue, we're talking participation. What is it? Why's it important? What kind of participation is right for you? It's also about us as staff learning from you and ensuring your voices are always heard.

This magazine is our strategy for children, young people and adults up to the age of 25. It's mainly for those of you who use our services, take part in our activities or feel passionate about the issues we care about.

What do you think about this magazine? Whether it's something you think works well. Something that could be better. Or maybe something completely out of the blue. Whatever thoughts you have, get in touch. We'd love to hear from you.

**Now dive in to see how you can get involved!**

> *"I need to be more than a place at the table. Don't just invite me because it feels like the right thing to do."*



## Want to be our guest editor?

You could be the next editor of Nothing About Me, Without Me. Write your own articles, learn how to interview someone, decide what to put on the cover. These are just a few of the things our guest editor will be involved in. Sound fun? Drop us an email at youthvoice@actionforchildren.org.uk

Interview

# So, what's participation?





We sat down with **Frankiee,** Participation Lead at Action for Children, to find out what participation is all about.

**Q: Hey Frankiee.
Let's jump straight in. What is participation?**

A: To us, participation means that children and young people, like you, have every opportunity to take part, be heard and see real change as a result of what you've told us. Participation is all about being involved in the decisions that affect you.

**Q: Okay. But how is participation going to help me?**

A: You'll have more chances to have a say in the things that matter to you. Feel more in control of the decisions that affect your life. Develop skills in decision making, influencing, communication, confidence and resilience. It'll help you gain a greater understanding of your own – and other people's – needs and rights. You will meet new people, make new friends and experience new things; all while building your CV with fantastic experiences to support your future career.

**Q: What's in it for Action for Children?**

A: We'll get a deeper understanding of your wants, needs, wishes and feelings. Our services and programmes will meet real needs, rather than just the ones we feel are important. Your views and lived experiences will help us make better decisions. Working with you will keep us better connected to children and young people, so we will have a better understanding of what you want and need. This will also make our practice more inclusive. And help us to spend the money we have in better ways.

**Q: Why do you need a strategy? Can't you just involve people like me?**

A: We want to get better at participation and improve your experiences when working with us. To do this, we need a strategy (or plan), which sets out the steps we need to take to amplify your voices and increase the level of influence you have over the decisions we make.

**Q: What will you do to make participation as good as possible for me?**

A: The most important thing we can do is to listen to you. And, with help from young people, we've created seven guiding stars to participation. These stars are standards which we will follow to help you have the best experience possible with us. Find the stars on page 10.

**Q: Finally, how will you know if you're doing it well?**

A: The most important measure is your opinions. Whether it's immediately after you've taken part in a project or activity, or later down the line, your voices matter and must be heard! We are always looking to hear what you think, especially on ideas of how we can do better.



*"Adults should not dismiss ideas as useless, even if they aren't perfect. All ideas should be considered and adapted to fit what is possible."*



## Is participation a right?

# Yes!

Your right to participate in decisions that affect you is listed in a legal document called the UN Convention on the Rights of the Child, also known as the UNCRC.

One of the things the UNCRC does is to make it clear that human rights apply to children and young people as much as they do to adults.

This means that every child and young person has the right to express themselves and have their views considered in everything that affects them.

You can find out more at:
unicef.org.uk/wp-content/uploads/2019/10/UNCRC_summary-1_1.pdf

**Article 12 of the UNCRC**

**Every child has the right to express their views, feelings and wishes in all matters affecting them, and to have their views considered and taken seriously. This right applies at all times, for example during immigration proceedings, housing decisions or the child's day-to-day home life.**

## Participation quiz

# What type of participation is right for me?



**There are so many ways to get involved in decision making at Action for Children. Take our quiz to find out what type of participation could be right for you.**

## Start here

*I like being involved in decisions when they affect my life and others.*

No → Participation is voluntary. There's no pressure to get involved if you don't want to. If you'd like more information on opportunities to have your say, see our 'how to get involved' section on page 6.

Yes → *Politics interests me. I'm passionate about politics and want to make the world a better place.*

Yes → **Political participation** could be for you! You could channel your energy and passion into our campaigning and youth activism movements.

No → *I'm confident making decisions and would like to represent the voices of young people at important meetings and events.*

Yes → **Strategic decision making** and change could be for you! You could help decide what kinds of services are needed for young people, be involved in recruiting staff and represent young people at important meetings.

No → *I like meeting new people and working together as a team to make change happen.*

Yes → **Decisions in group settings** could be for you! You may want to join our Young Ambassadors network to have a say on the issues that matter to you. You can also be involved in group decisions that affect your school, children's homes, youth clubs, etc.

No → *I prefer one-to-one conversations, e.g. speaking to decision makers about important issues that affect me personally.*

Yes → **Individual participation** could be for you! You could speak to our staff about issues that affect your life as an individual, like your care, education, health, and employment.

No → back to *I'm confident making decisions and would like to represent the voices of young people at important meetings and events.*

**Interested in all of these?**

## Get involved!





## Participation benefits everybody

Not only is participation your basic human right, but it also benefits us all. We can learn so much from you, and your participation can help us to identify new opportunities and shape our way of thinking for years to come.

*"I like being able to pick what we should do and having the opportunities to say what I think to other leaders and children"*



# How to get involved

We want you to get involved. But we know that sometimes it can be hard to know where to start. If you're interested and want to find out more, drop us an email at:
**youthvoice@actionforchildren.org.uk.**

You can also find out more about what we do on our website and social media channels.

/actionforchildren   @actnforchildren   @actionforchildrenuk

# Understanding the Lundy Model



By **Sarah Reynolds**
Participation & Engagement Officer
at Action For Children

**In the participation world, there are lots of different 'models' which help organisations get better at understanding and bringing to life children's right to participation.**

Action for Children have chosen the Lundy Model, developed by Professor Laura Lundy. The model has four important areas which will help us understand the best way to work with children and young people. These follow a chronological order and are:

**1. Space**
We must make sure that you have access to safe and inclusive spaces so that you are able to express your views.

**2. Voice**
We must support you to have your voices heard and express yourself in a way that's best for you.

**3. Audience**
We must ensure that you will be listened to by the right people.

**4. Influence**
We must ensure that your views are taken seriously and acted upon, where appropriate. We must always explain to you if decisions are made that are different to what you wanted.

The model comes with a checklist of questions. We'll use this to ensure that you have the space to express your views, your voice is enabled, you are listened to by the right people, and your views will have an influence. This checklist will be used in our everyday work, and will be particularly helpful when we:

- Create and update our policies and strategies.
- Develop and evaluate services for children, young people and families.
- Plan activities and events.
- Campaign for change.
- Recruit new members of staff.
- Fundraise.
- And lots more!

These are the reason why Action for Children has chosen to use this model. If you have any questions or thoughts, we'd love to hear from you.

Get in touch with us at:
youthvoice@actionforchildren.org.uk

> *"we must ensure that you will be listened to by the right people"*





# In your words

> *We should be involved in decisions that affect us, so we can feel in control of our lives*



## Our Guiding Stars for Participation

**To make sure you have the best possible experiences with us, we will follow a set of six guiding stars (sometimes known as principles). These guiding stars have been created by young people, and ALL staff across Action for Children will follow them. You said:**

### Empower

"You must support us to feel empowered so that we can create positive and influential change.

### Equity

"You must make sure that we have equal chances to participate and feel heard.

### Respect

"You must see us as individuals with different needs and circumstances and make sure that we're able to participate in a way that's right for us.

### Recognition

"You must thank us for taking the time to work with you and celebrate our achievements.

### Fun

"You must make sure there are plenty of enjoyable opportunities for us to take part in.

### Safety

"You must have safe spaces for us to participate both face-to-face and online.

**If at any point you don't think we have followed these guiding stars, it's important that you hold us to account. You can feedback on your experiences at any time, be that good or bad, we want to hear from you!**

# What's On?

**What does next year look like for participation?**

Here's a flavour of the types of activities we have in mind:

Nothing about me, without me

Produce this magazine twice a year with young people.

Grow our national Young Ambassador Board.

Create more opportunities for children and young people to influence decisions by our senior staff and trustees.

Create more opportunities for youth-led activism.

Recruit staff Participation Champions who will drive participation in their services.

Develop participation training for staff (created by young people, of course!).

Provide staff with 'how-to guides' to give them tips and ideas.

Work with young people to deliver an annual youth voice event to celebrate your achievements.

Review and improve young people's involvement.

Discuss participation work in supervision, staff meetings and annual performance appraisals.

Involve children and young people more in the recruitment and induction of staff.

Create an events calendar to promote opportunities to young people.



Campaigning for change to children's social care in parliament



Fundraising for Action for Children




It's our Care Campaign- Day of Action in Parliament



Stepping Stones Wales - family support



Young Ambassadors- Independent Travel Training



Ireland National Advisory Committee Members- Ballyscullion Ball

# Get to know US



We were founded by Reverend Dr Thomas Bowman Stephenson in

**1869**

**Our vision is that every child and young person has a safe and happy childhood, and the foundations they need to thrive.**

We are a children's charity that protects and supports children, young people and families in the UK.

We have an independent special school called Headlands in Wales.

Our values reflect the way we want to work.
We're ***passionate, ambitious, collaborative*** and ***inclusive.***
**And we put children first**.

We used to be called the National Children's Home (NCH) before becoming Action for Children in 2008.

We work closely with children and families to spot problems early and offer extra help when it's needed. We do this in many ways – from childcare to mental health programmes and parenting support.

We run **447** services in local communities, in schools and online.

We helped more than **2,000** young people access jobs and learning last year.

In 2021/22, we supported **671,275** children, young people and families.

We have celebrity supporters including **Sir Trevor McDonald**, **Olympian Fatima Whitbread** and **Matthew Lewis** (who plays Neville Longbottom in the Harry Potter films).

Our Young Ambassadors Board for is a fantastic opportunity to have your views heard, develop new skills, meet new people and make positive changes for children and young people in the UK."- I'll contact the translator today.





## Key words explained

**Co-production** - Working together as equals to produce a product, service or activity.

**Strategy** - A plan of action to achieve something.

**Influence** - The power to have an important effect on someone or something.

**Resilience** - The ability to bounce back from a negative experience or difficult challenge.

**Governance** - The way a group of people, such as a charity, do things. Governance structures are put in place to help charities comply with the law and relevant regulations. We use it to make sure that we are working towards fulfilling our vision that every child and young person has a safe and happy childhood, and the foundations they need to thrive.

**Monitoring** - Keeping an eye on something.

**Model (of participation)** - A structure that we can follow to help us get better at participation.

**Policies** - A set of rules or guidelines for an organisation and staff to follow.

Action for Children
Gweithredu dros Blant

# Hoffech chi gymryd rhan?

youthvoice@actionforchildren.org.uk

# Want to get involved?

## Safe and happy childhood

Action for Children protects and supports children and young people, providing practical and emotional care and support, ensuring their voices are heard, and campaigning to bring lasting improvements to their lives.

## Plentyndod hapus a diogel

Mae Gweithredu dros Blant yn amddiffyn ac yn cefnogi plant a phobl ifanc drwy ddarparu gofal ymarferol ac emosiynol, sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed, ac ymgyrchu i wella eu bywydau'n barhaol.

Rhifau cofrestru'r elusen: 109/7940/SC038092. Rhif y cwmni 04764232. © Gweithredu dros Blant 2022. 1799
Registered charity nos. 1097940/SC038092. Company no. 04764232. © Action for Children 2022. 1799.